**Cyngor Tref Amlwch Town Council**
**Adroddiad Blynyddol 2025-26**

## Cyflwyniad
Bu i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 benu gofyniad ar gynghorau tref/cymuned i baratoi a chyhoeddi adroddiad (adroddiad blynyddol), mor fuan â phosibl ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, sy'n sôn am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Rhennir yr adroddiad yn ddau ran
1 – gwybodaeth am y Cyngor Tref a'i gyfrifoldebau
2 – gwybodaeth a mwy o fanylion am y gweithgareddau a wnaed gan y Cyngor Tref dros y flwyddyn.

## Adran 1 – Gwybodaeth am y Cyngor Tref
**Aelodau**
Mae 15 o seddi ar Gyngor Tref Amlwch (5 sedd yn y Ward Wledig, 5 yn Ward y Dref a 5 yn Ward y Porth). Ar ôl eu hethol neu eu hapwyntio mae'r Cynghorwyr (y rhai etholedig a'r rhai sydd wedi eu cyfethol) yn ddeilwyr swydd sy'n arwyddo Datganiad Derbyn Swydd – ac maent felly yn rhan o strwythur llywodraeth leol yng Nghymru. Er eu bod yn cyflawni nifer o weithgareddau yn y gymuned ar sail gwirfoddol, nid gwirfoddolwyr mohonynt.

Roedd y canlynol yn Gynghorwyr y Cyngor Tref am y flwyddyn 2025-26:
Ward Gwledig – Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Gordon Warren, Julie Edwards, Geraint Thomas
Ward y Dref – Meg Roberts, Gareth Thomas, Veronica Holdsworth, Llinos Knowles Williams, Elin Owen
Ward y Borth – Gerry Belanger, Liz Wood, Alan Wood, John Gill, Noel Kerr

Pennaeth y Cyngor yw'r Cadeirydd sy'n cael ei h/ethol am gyfnod o ddwy flynedd a hynny gan ei ch/gyd Gynghorwyr cyfredol. Y Cadeirydd ar gyfer 2025-6 oedd y Cynghorydd Gareth Winston Roberts OBE a'r Is-Gadeirydd oedd y Cynghorydd Gerry Belanger. Cynorthwyir y Cyngor gan y Clerc, Carli Evans Thau. Mae'r Cyngor Tref hefyd yn gweithio gyda'r tri Chynghorydd Sir a etholwyd i gynrychioli Ward Twrcelyn: Derek Owen, Liz Wood, Aled Morris Jones.

**Y Corff Corfforedig**
Y Cyngor Tref sydd yn berchen ar Swyddfa'r Cyngor Tref sydd ar Lôn Goch. Mae'n gartref hefyd i'r Orsaf Heddlu, y Banc Bwyd a Chyngor ar Bopeth (CAB) a defnyddir Siambr y Cyngor ar gyfer ymgynghoriadau cymunedol a chyfarfodydd a digwyddiadau eraill gan gynnwys dosbarthiau Cymraeg Prifysgol Bangor.

Mae'r Cyngor Tref yn berchennog ar nifer o eiddo sy'n cael eu prydlesu i grwpiau cymunedol ac/neu i fusnesau. Y Cyngor Tref sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ac am wneud gwelliannau i'r mannau chwarae, y parciau a'r mannau agored (Lon Goch, Lon Wen, Craig y Don, Maes Mona, Maes Llwyn, Bro Trehinion), ynghyd ag eiddo a welir ar strydoedd y dref a'r Porth megis meinciau a photiau plannu blodau a'r toiledau cyhoeddus ym Mhorth Amlwch.

Fel yr Awdurdod Claddedigaethau mae'r Cyngor Tref yn gyfrifol am bennu strwythur ffioedd, gwerthu plotiau a chynnal a chadw Mynwent Gymunedol Amlwch a'i chofnodion claddu.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol (Cyngor Sir Ynys Môn) yn ymgynghori'n statudol â'r Cyngor Tref ar faterion cynllunio ac fe'i gwahoddir i ymateb a bydd yn cael gwybodaeth am ymgynghoriadau'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru gan ymateb pan fo'n briodol. Mae'r Cyngor Tref hefyd yn gweinyddu Cynllun Llithrfa Porth Llechog mewn partneriaeth â Chyngor Sir Môn.

Bydd y Cyngor Tref yn trefnu Goleuadau Nadolig ar gyfer canol y dref gan weithio mewn partneriaeth gyda'r Grŵp Gwyliau Cymunedol i drefnu troi'r goleuadau ymlaen a gweithgareddau cefnogol.

**Cyfarfodydd**
Yn ystod 2025-26, bu i'r Cyngor gyfarfod yn ffurfiol trwy gyfarfodydd o bell, hybrid a wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor Tref a hynny ar y pedwerydd Dydd Mawrth o'r mis am 7pm.

Mae strwythur i'r cyfarfodydd gyda agenda llawn. Er mai cyfarfod i drafod gwaith ydy hwn yn hytrach na chyflwyniad i'r cyhoedd, mae croeso i aelodau o'r cyhoedd i fynychu, naill ai mewn person neu yn rhithiol. Mae agenda pob cyfarfod yn cael ei gyhoeddi ymlaen llaw a'i roi ar y bwrdd hysbysebu y tu allan i Swyddfa'r Cygnor ac ar y wefan. Ar ô iddynt gael eu cadarnhau, bydd y cofnodion ar gael ar wefan cyngortrefamlwch.co.uk

Mae'r Cyngor Tref wedi mabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg sydd wedi cael sêl bendith Comisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad, mae papurau'r cyfarfod yn ddwyieithog a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfodydd.

Mae gan y Cyngor sawl pwyllgor i ymdrin â materion penodol. Maent fel â ganlyn:
- Cyllid ac Economaidd
- Parciau a Mannau Agored
- Mynwent
- Croeso, Gefeillio a Goleuadau Nadolig
- Cynllunio (er y bydd y rhan fwyaf o faterion cynllunio yn cael eu hymdrin â hwy yn Cyngor llawn)

Caiff y Cyngor Tref ei gynrychioli ar nifer o bwyllgorau allanol a sefydliadau sy'n berthnasol i waith y Cyngor Tref a chymuned Amlwch.
- Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa
- Grŵp Cyswllt Fferm Solar Porthwen
- Un Llais Cymru
- Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn
- Institiwt Amlwch i Goffáu'r Rhyfel (Neuadd Goffa)
- Clwb y Gorlan
- Pwyllgor Neuadd Sgowtiaid Amlwch
- Ty Cychod Porth Llechog
- Grŵp Gwyliau Cymunedol Amlwch (Nadolig)
- Partneriaeth Cynghorau Gogledd Ynys Môn
- Partneriaeth Trefi Môn (Pum Tref)
- Grŵp Defnyddwyr Porth Amlwch
- Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Amlwch

**Cyllideb**
Mae angen i'r Cyngor Tref gymeradwyo a monitro cyllideb am bob blwyddyn ariannol. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26 roedd incwm y Cyngor Tref o'r dreth Cyngor (praesept) yn £122,075 sy'n gyfatebol i £78.35 am bob tŷ Band D. Yn ychwanegol i hyn mae'r Cyngor Tref yn cael incwm o dderbyniadau y llithrfa a'r fynwent, taliadau rhent a grantiau. Roedd gwariant y Cyngor Tref ar gyfer 2025-26 yn £158,959.

Yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor roedd y gwariant yn cynnwys costau gweinyddol, costau cynnal a chadw a datblygu y parciau a'r mannau agored, cynnal a chadw'r fynwent, darparu toiledau cyhoeddus, cynnal a chadw system CCTV y dref a'r goleuadau Nadolig.

Mae aelodau'r Cyngor Tref yn gallu hawlio lwfans blynyddol i'w cynorthwyo yn eu gwaith. Ni wnaeth yr un aelod hawlio taliad yn ystod 2025-26.

Bydd cyfrifon y Cyngor ynghŷd â dogfennau cefnogol a dogfennau rheolaeth yn cael eu harchwilio gan archwilydd mewnol annibynnol (lleol) cyn cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru ar gyfer archwiliad allanol.

## Adran 2 - Gweithgareddau

**Cyllid ac Economaidd**
Myrddin Owens yw cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Economaidd ac yn ystod 2025-26 bu cyfarfod yn fisol drwy gydol y flwyddyn. Bu i aelodau'r pwyllgor gymeradwyo taliadau a chael adroddiadau cyson ar incwm a gwariant. Adolygwyd cyflogau staff a thaliadau i gontractwyr rheolaidd. Bu i'r Pwyllgor Cyllid ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan nifer o sefydliadau gyda'r gwpriau lleol canlynol yn cael cefnogaeth – Cyngor Cymuned Rhosybol – gwasanaeth coffa VE a VJ Day (£250 yr un), Ysgol Gynradd Amlwch (£300), Carnifal Amlwch £350), Yr Arwydd (£500). Bu'r Cyngor osod cyllideb o £2000 tuag at roddion o'r fath.

Roedd Swyddfa y Cyngor Tref yn gartref i Ewyllys Da Amlwch (Banc Bwyd) a Cyngor ar Bopeth (CAB) ynghŷd â Gorsaf Heddlu Amlwch (llawr cyntaf). Yn ogystal bu i Siambr y Cyngor Tref gael ei defnyddio gan Brifysgol Bangor ar gyfer dosbarth Cymraeg ynghŷd â sefyliadau eraill. Mae gan y Pwyllgor Cyllid drosolwg ar agweddau cyfreithiol rheoli cyfleusterau h.y cytundebau prydlesu a gosod rhent. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adnewyddu nifer o gytundebau prydlesu.

Mae'r Gyllideb a'r Praesept blynyddol yn cael eu trafod yn fanwl gan y Pwyllgor Cyllid a'u cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w cymeradwyo (gweler y gyllideb uchod).

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26, bu i'r Pwyllgor, neu gynrychiolwyr y Pwyllgor gyfarfod gyda Swyddogion Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â grantiau a phrosiectau a oedd ar gael ac yn berthnasol i Amlwch, a hefyd gyda chynrychiolwyr o gwmniau a oedd yn bwriadu datblygu yn yr ardal.

Yn ystod hanner olaf 2023-24 daeth yn hysbys i'r Cyngor Tref bod adeiladau a oedd o bwysigrwydd hanesyddol sylweddol yn cael eu gwerthu. Mae'r Cyngor Tref wedi addo cefnogaeth sylweddol i Dy Cychod Cymunedol Porth Llechog, gyda'r grŵp cymunedol yn parhau gyda'u hymdrechion i godi arian i gyrraedd eu targed. Trwy gydol 2025-26 bu trafodaethau yn parhau gyda Menter Môn a Chyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â prynnu y Llofft Hwyliau a diogelu dyfodol yr Hen Oleudy; gyda'r Biniau Copr ym Mhorth Amlwch yn cael eu prynnu gan Hyfforddiant Parys.

**Grantiau**
Yn ystod 2025-26 bu'r Cyngor Tref ddiogelu grantiau gwerth £6616 tuag at welliannau i fynedfa parc Lon Goch (CSYM), bynting a fflagiau i ganol y dref (Solar Porthwen) ac uwchraddio'r cyfrifiadur gwylio CCTV (Fferm Wynt YsgellogBu i'r Cyngor Tref weithio gydag Adran Economaidd CSYM a Mon CF i rannu gwybodaeth i fusnesau lleol am y grantiau a oedd ar gael megis y prosiect paentio siopau.

**Parciau a Mannau Agored**
Mae'r Pwyllgor Parciau a Mannau Agored yn parhau i weithio i gynnal a chadw y meysydd chwarae a'r mannau agored y mae'r Cyngor Tref yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, mae nifer o fannau nad ydynt yn dod o dan gyfrifoldeb y Cyngor Tref. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd i reoli a gwella'r parciau a'r mannau agored. Mae'r meysydd chwarae yn cael eu harchwilio yn rheolaidd ynghŷd â'r meinciau cymunedol a'r llecynnau gwyrdd, gydag arolwg ar ddiogelwch y coed yn cael ei wneud gan arbenigwyr coedyddiaeth cymwysedig. Mae'r offer chwarae yn cael eu arolygu yn rheolaidd gan gyflogai y Cyngor Tref ac arolygydd annibynnol.

Mae'r pwyllgor wedi cwrdd a Swyddog Bioamrywiaeth Un Llais Cymru ac wedi mabwysiadu CYnllun Bioamrywiaeth fel y gofyn. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu yn reolaidd. Yn ystod y flwyddyn by cymeradwyo cytundeb torri gwair newydd. Bydd y cytundeb yn rhedeg hyd at pum mlynedd o Ebrill 2026.

Bu i'r pwyllgor gyfeirio Swyddogion Hawliau Tramwy CSYM i nifer o lwybrau a oedd angen sylw a gwaith cynnal a chadw yn yr ardal a bydd yn parhau i wneud hynny. Bu i'r Cyngor Tref gefnogi CSYM gydag apel yn ymwneud a llwybr oedd yn croesi Parys Farm, mae disgwyl dyddiad ar gyfer gwrandawiad cyhoeddus yn gynnar yn 2026-27. Fe hysbyswyd adran Rheoli Gwastraff CSYM o fannau lle roedd baw ci a sbwriel yn broblem. Mae'r Cyngor Tref hefyd wedi darparu bagiau i ddal baw cŵn yn y mannau mwyaf helbulus ac mae'n parhau i ddarparu bagiau ar gyfer defynydd y gymuned.

**Mynwent**
Mae'r Pwyllgor yn parhau i gymryd cyfrifoldeb am y gwaith cynnal a chadw yn y fynwent. Yn ystod 2025-26, fe gladdwyd tri deg o bobl gydag eraill yn prynu plotiau ymlaen llaw. Mae gwaith yn parhau gyda'r asiant gynllunio er mwyn cyflwyno cais llawn ar gyfer datblygu adran newydd ar gyfer claddedigaethau (adran 12), tra bod gwaith i ffensio tir y Cyngor bellach wedi ei gwblhau – mae'r tir yn parhau i gael ei bori gan y ffermwr cyfagos. Bu'r Cyngor gytuno peidio gwerthu safleoedd ymlaen llaw am y tro nes bydd gwybodaeth pellach ar gael am ddatblygiad Adran 12.

**Cynllunio**
Nid yw'r Cyngor Tref yn awdurdod cynllunio ond yn hytrach mae'n gorff yr ymgynghorir ag ef yn statudol. Bydd ceisiadau cynllunio fel a welir ar borth cynllunio CSYM yn cael eu dosbarthu i'r aelodau i'w gweld trwy e-bost. Mae hyn yn rhoi cyfle i bob aelod, ac nid dim ond aelodau o'r pwyllgor i weld a chynnig sylwadau ar bob cais. Cynhelir cyfarfod o'r pwyllgor cynllunio petai angen trafodaeth bellach. Yn ystod 2025-26 fe fu i dri deg chwech cais cynllunio

gael eu cyflwyno i aelodau'r Cyngor Tref i'w hystyried yn ogystal ac ymhynghoriadau ar ddatblygiadau megis ffermydd solar Alaw Mon a Maen Hir, a datblygiadau tai cymdeithasol ym Maes Mona (CSYM) a Ffordd Tan y Bryn (CAdnant Planning/Clwyd Alyn).

**Diogelwch Cymunedol**
Bu i'r Cyngor Tref barhau i reoli a chynnal y system CCTV yn y dref. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyfrannu tuag at rhan o'r gost cynnal a chadw.Bu cynnal nifer o gyfarfodydd mewn partneriaeth a Threfi Mon (Pum Tref) a chynrychiolaeth o'r Heddlu. Mae trafodaethau yn parhau am reolaeth y gwasanaeth i'r dyfodol.

Bu i'r aelodau gyfleu pryderon i GSYM mewn perthynas â phroblemau parcio (ar ochr y ffordd ac mewn meysydd parcio) a materion diogelwch eraill megis rhwystrau ar balmentydd, gwrychoedd wedi gor-dyfu, diffyg arwyddion ayyb. Fel yr Awdurdod Priffyrdd, CSYM sydd efo'r cyfrifoldeb eithaf am asesu a chwblhau y math hwn o waith.

Bydd y Cyngor Tref yn parhau i gysylltu gyda swyddogion lleol yr heddlu a'r awdurdod priffyrdd mewn perthynas â phob agwedd o ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan gynnwys defnydd anystyriol ac amhriodol o gerbydau a chreu rhwystrau ar y ffyrdd.

Bu i'r Cyngor Tref gwrdd a chynrychiolaeth o Scottish Power Energy Networks yn dilyn nifer o dorriadau yn y gyflenwad trydanol o'r is-orsaf ar Ffordd Madyn, bu dilyn y cyfarfod gyda cymhorthfa agored yn Siambr y Cyngor Tref.

Mae mynediad i doiledau cyhoeddus Porth Amlwch yn parhau yn broblemus gyda cerbydau llety yn camddefnyddio'r cyfleuster i wagio eu toiledau cemegol. Mae hyn yn achosi pob math o broblemau a chostau yn ymwneud a dad-flocio yn ogystal a bod yn anheg iawn ar y gofalwyr sy'n gorfod glanhau'r llanast. Mae arwyddion a CCTV wedi eu gosod ond nid ydynt yn ddigon i atal y broblem. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa; mae'r cyfleuster ar hyn o bryd ar agor o'r Pasg hyd diwedd Hydref.

## Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach
Am wybodaeth bellach mewn perthynas â'r Cyngor Tref gallwch naill ai alw heibio'r swyddfa (Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon LL689EN), ymweld â'r wefan: cyngortrefamlwch.co.uk neu gysylltu gyda'r clerc trwy e-bost clerc@cyngortrefamlwch.co.uk neu ar y ffon 01407 832228.